ATODIAD 1





# **GWELEDIGAETH STRATEGOL**
# DDRAFFT Y GWASANAETH LLYFRGELLOEDD 2024-2028







# RHAGAIR

Mae Caerffili, fel nifer o gynghorau eraill ledled Cymru, yn wynebu heriau ariannol sylweddol ac ar adeg o newid cyflym ac anghenion cymunedol esblygol, mae gwasanaethau llyfrgelloedd ar groesffordd sylweddol.

Mae llyfrgelloedd eisoes wedi esblygu dros y blynyddoedd o fannau o fyfyrio ac astudio tawel i fod yn fannau cymunedol bywiog i'n trigolion o bob oed eu mwynhau.

Ar hyn o bryd, mae gan Fwrdeistref Sirol Caerffili nifer fwy o lyfrgelloedd yng Nghymru na chynghorau eraill o faint tebyg. Er bod hynny wedi cael ei ystyried yn gadarnhaol yn y gorffennol, mae cadw'r holl safleoedd ar agor yn golygu cost uchel. Rydyn ni wedi gorfod gwneud nifer o aberthau megis cyflwyno lleoliadau ag un aelod o staff a lleihau oriau agor.

Wrth wynebu bwlch ariannu o £45 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf mae'n rhaid i ni weithredu'n gyflym i ddatblygu strategaethau i leihau cyllidebau gan barhau i ddiwallu anghenion y gymuned.

Wrth archwilio'r weledigaeth ar gyfer dyfodol y gwasanaeth llyfrgelloedd, roedd yn amlwg eu bod nhw eisoes wedi dod yn llawer mwy na lle i fenthyg a darllen llyfrau, ac rydyn ni wedi gweld sut mae esblygiad gwasanaethau digidol wedi gwella'r cynnig a chreu gwasanaeth sy'n llawer mwy cynhwysol. Rydyn ni am fynd â hynny un cam ymhellach a chreu amgylchedd hwb sy'n gweithredu fel siop un stop i drigolion. Gofod cynnes a chroesawgar sy'n darparu mynediad parod at wasanaethau mewn lleoliad canol tref gyda mynediad hawdd at gysylltiadau trafnidiaeth lleol.

Ond mae'n rhaid i ni gydnabod, er mwyn dod â'r weledigaeth hon yn fyw a gwella profiad y cwsmer i drigolion, ei fod yn golygu lleihau nifer y cyfleusterau a chanolbwyntio ein hadnoddau a'n cyllid ar nifer llai o gyfleusterau allweddol.

Er mwyn diogelu'r gwasanaeth hwn a'i baratoi at y dyfodol, rhaid inni edrych ar y darlun mawr. Mae'r weledigaeth hon yn nodi sut y byddwn ni'n datblygu ein gwasanaeth llyfrgelloedd i gynnig ymagwedd sy'n canolbwyntio mwy ar y gymuned. Mae hyn yn golygu y gall llu o wasanaethau'r Cyngor a gwasanaethau cymunedol weithredu o'r lleoliadau hyn a fydd yn fwy hygyrch i drigolion gael cyngor a chymorth.

Rydyn ni am glywed eich barn ar y weledigaeth hon gan y bydd hynny'n ein helpu ni i lywio darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol a, gobeithio, gweithio tuag at rymuso ein cymunedau i ffynnu.



**Y Cynghorydd Sean Morgan**
Arweinydd y Cyngor



**Y Cynghorydd Carol Andrews**
Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau

# PWRPAS Y WELEDIGAETH STRATEGOL

Mae'r weledigaeth strategol hon yn nodi ymrwymiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynaliadwy, cynhwysol ac ysbrydoledig sy'n cynorthwyo dysgu gydol oes ac yn hwyluso cyswllt cymunedol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Fel gwasanaeth i bobl o bob oed, dylai llyfrgelloedd ddarparu gofod modern ac amlbwrpas sy'n gallu addasu i gefnogi anghenion cymunedol.

Mae'r weledigaeth strategol yn nodi sut y bydd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Caerffili yn dod yn rhan o fodel hwb cymunedol i gynnig rhagor o fynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau i ddiwallu anghenion trigolion.

Fel rhan o weithredu'r weledigaeth strategol, byddwn ni'n ymgysylltu â thrigolion i ddeall anghenion y gymuned ac yn gweithio gyda'n gilydd i ddylunio gwasanaeth cynaliadwy sy'n addas i'r diben.

Mae'r 4 amcan allweddol wedi'u creu gyda Chynllun Corfforaethol y Cyngor, yr amcanion llesiant a Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru mewn golwg.

**Datganiad Gweledigaeth Stategol:**

***"Byddwn ni'n darparu Gwasanaeth Llyfrgelloedd croesawgar a chynaliadwy trwy integreiddio i fodel Hwb, i roi cyfle i'r holl drigolion gael mynediad at adnoddau llyfrgelloedd a chymorth arall, mewn lleoliadau canol trefi ledled y Fwrdeistref Sirol."***





# AMCANION

## **Amcan 1:** Gwella a datblygu'r gwasanaethau llyfrgelloedd a'r arlwy sydd ar gael

**Yr hyn rydyn ni'n ceisio ei gyflawni:**

- Dod â'n gwasanaethau at ei gilydd mewn lleoliadau canol trefi ym Margod, Coed Duon, Caerffili, Rhymni, Rhisga ac Ystrad Mynach.
- Cynnig mynediad at wasanaethau llyfrgelloedd sy'n diwallu anghenion trigolion, gan gynnwys amser cinio, gyda'r nos ac ar y penwythnos.
- Datblygu'r arlwy i gwsmeriaid mewn llyfrgelloedd canol y dref drwy integreiddio i fodel Hwb i gynnwys mynediad at wasanaethau a chymorth eraill.
- Cynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol trefi a llyfrgelloedd a chynyddu aelodaeth yn gyffredinol.
- Hyrwyddo mynediad at y gwasanaeth llyfrgelloedd digidol i ddiwallu anghenion esblygol y gymuned.

**Canlyniadau:**

- Rydyn ni'n bwriadu cael 6 chyfleuster mewn lleoliadau canol trefi.
- Bydd yr holl gyfleusterau ar agor ar adegau sy'n diwallu anghenion y gymuned gyfagos.
- Byddwn ni'n gweithio'n gyfannol gyda'r gymuned a sefydliadau partner i ddarparu siop un stop ar gyfer cyngor a chymorth.
- Hybu'r economi leol drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr â lleoliadau canol trefi.
- Creu cymuned wybodus, ymgysylltiol a chysylltiedig trwy wella rôl llyfrgelloedd fel adnodd cymunedol hanfodol.



**Strwythur y Llyfrgelloedd Newydd**



## **Amcan 2:** Helpu trigolion i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth mewn lleoliad Hwb

**Yr hyn rydyn ni'n ceisio ei gyflawni:**

- Darparu mannau a rennir wedi'u galluogi drwy dechnolegau digodol i'w defnyddio gan y gymuned a phartneriaid a hefyd cynnig cymorth i gael mynediad at wasanaethau digidol.
- Dylunio mannau diogel, cynhwysol a chroesawgar i ddod â phobl a chymunedau at ei gilydd.
- Darparu lle sy'n cynorthwyo dysgu unigol, cynhwysiant digidol, mynediad at stoc benthyca, Wi-Fi am ddim a mynediad at offer.
- Cryfhau cysylltiadau â sefydliadau partner i wella'r cynnig i gwsmeriaid.
- Darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau wedi'u harwain gan lyfrgelloedd a digwyddiadau cymunedol sy'n cefnogi lles a chydlyniant cymunedol.

**Canlyniadau:**

- Bydd gan drigolion well mynediad at wasanaethau yn enwedig i'r rhai sydd angen cymorth un-i-un.
- Darparu mynediad at amrywiaeth o adnoddau llyfrgelloedd a gwasanaethau eraill sy'n gwella lles a mwynhad cymunedol i bob oed.
- Galluogi annibyniaeth ddigidol a hunanwasanaeth.
- Darparu lle i ddysgu a brwdfrydedd dros ddysgu gydol oes.



## **Amcan 3:** Rhoi anghenion y gymuned wrth galon Hybiau canol trefi, er mwyn cynorthwyo ac annog rhagor o wytnwch i unigolion trwy gymorth a chyfeirio

**Yr hyn rydyn ni'n ceisio ei gyflawni:**

- Cydnabod cymunedau fel partneriaid gweithredol, gwrando ar eu hanghenion ac ymateb iddyn nhw.
- Blaenoriaethu atal a gwella gwytnwch trwy helpu i symud cymorth tuag at wasanaethau mwy ataliol sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau hirsefydlog.
- Galluogi pobl sy'n dymuno rhoi rhywfaint o'u hamser eu hunain i gynorthwyo gyda rhaglenni gwirfoddoli.



**Canlyniadau:**

- Darparu rhagor o gyfleoedd i adeiladu cymuned o amgylch y llyfrgelloedd, gan alluogi rhagor o gyfranogiad cymunedol.
- Lleihau'r galw am wasanaethau adweithiol drwy fynd i'r afael â materion lleol.
- Gwella ymddiriedaeth a chynorthwyo creu cysylltiadau gyda'r gymuned.
- Cynorthwyo grymuso cymunedau a gwell ymdeimlad o reolaeth gymunedol.
- Cynyddu cyfranogiad mewn rhaglenni gwirfoddoli presennol, er enghraifft Dydd Gwener Digidol a chreu cyfleoedd newydd.

## **Amcan 4:** Rhesymoli nifer yr adeiladau i wneud y mwyaf o adnoddau a gwella'r cynnig cyffredinol

**Yr hyn rydyn ni'n ceisio ei gyflawni:**

- Er mwyn cynnal gwasanaethau llyfrgelloedd cynhwysfawr, effeithlon a chynaliadwy, efallai y bydd angen i ni roi'r gorau i ddarpariaeth y Cyngor yn y 12 lleoliad sy'n weddill ac ystyried opsiynau ar gyfer cynnig amgen yn y cymunedau hynny. Er enghraifft, ehangu'r rhaglen allgymorth cymunedol.
- Cyfrannu at arbedion sylweddol y Cyngor o £45 miliwn yn ystod y ddwy flynedd ariannol nesaf.
- Cyfnerthu ein hadnoddau a'u canolbwyntio nhw ar ddatblygu gwasanaethau mewn llai o leoliadau llyfrgelloedd i ddiwallu anghenion newidiol trigolion.
- Adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau allgymorth llyfrgelloedd i gynnal presenoldeb mewn cymunedau.

**Canlyniadau:**

- Dileu'r angen am lyfrgelloedd ag un aelod o staff i gael mwy o gapasiti a gwytnwch.
- Gwell cynaliadwyedd ariannol i'r Cyngor a'r gwasanaeth llyfrgelloedd.
- Creu cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau llyfrgelloedd mewn cymunedau trwy Wasanaeth Allgymorth Llyfrgelloedd newydd.
- Gwella cyrhaeddiad a defnydd o'r Gwasanaethau Digidol a LibraryLink.
- Darparu cyfleoedd ar gyfer gwaredu, trosglwyddo asedau cymunedol neu fodel darparu amgen arall lle bod modd cyflwyno achos busnes addas.







# Map Ffordd: Gweledigaeth Strategol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd 2024-28

2024

Gwasanaethau mewn lleoliadau canol tref

Oriau agor hyblyg

Mynediad at wasanaethau eraill

Cynyddu nifer yr ymwelwyr

**Amcan 1:** Gwella a datblygu'r gwasanaethau llyfrgelloedd sydd ar gael a'r arlwy

Hyrwyddo mynediad at y llyfrgell ddigidol

Mannau a rennir wedi'u galluogi drwy dechnolegau digidol

Mannau diogel, cynhwysol

Wi-Fi am ddim a mynediad at offer

**Amcan 2:** Helpu trigolion i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth mewn lleoliad Hwb

Cryfhau cysylltiadau â sefydliadau partner

Cefnogi lles a chydlyniant cymunedol

Gwasanaethau ataliol sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau

Gwrando ar gymunedau ac ymateb iddyn nhw

**Amcan 3:** Rhoi anghenion cymunedol wrth galon Hybiau canol tref, cynorthwyo ac annog rhagor o wytnwch i unigolion trwy gymorth a chyfeirio

Cymorth i raglenni gwirfoddoli

Adolygu darpariaeth LibraryLink

Rhoi'r gorau i ddarpariaeth y Cyngor yn y 12 lleoliad sy'n weddill

**Amcan 4:** Rhesymoli nifer yr adeiladau i wneud y mwyaf o adnoddau a gwella'r cynnig cyffredinol

Creu capasiti yn y gwasanaeth

Gofyniad i arbed £45 miliwn yn ystod y ddwy flynedd ariannol nesaf

£45m

2028



# BETH NESAF?

Mae Caerffili yn ceisio creu golwg strategol o ddyfodol y gwasanaeth llyfrgelloedd a lleoliadau, i sicrhau ein bod ni'n darparu gwasanaeth addas i'r diben a chynaliadwy drwy symud i fodel Hwb.

Yng nghyd-destun heriau ariannol sylweddol, mae'n bwysig ystyried sut y gallwn ni wella taith y cwsmer, gan barhau i fod yn wydn yn ariannol.

Bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y weledigaeth a'r amcanion yn rhoi cyfle i ni ddeall yn well yr angen cymunedol i lywio datblygiad y weledigaeth hwb cymunedol. Model sydd wedi'i brofi yn nhref Rhymni ac wedi'i groesawu gan y gymuned leol.

Mae'r weledigaeth yn nodi y byddai datblygu'r Model Hwb yn arwain at lai o leoliadau llyfrgelloedd i ganiatáu canolbwyntio ar ddatblygu lleoliadau canol trefi i ddarparu dull siop un stop ar gyfer gwasanaethau cymunedol.

Byddwn ni'n ymweld â phob lleoliad i glywed barn trigolion er mwyn deall goblygiadau daearyddol symud i fodel canol tref ar gyfer ein gwasanaethau llyfrgelloedd, gan ganolbwyntio ar ddatblygu ein darpariaethau allgymorth ledled y Fwrdeistref Sirol.

Byddwn ni'n defnyddio'n gweithgareddau ymgysylltu i hysbysu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wrth iddyn nhw geisio symud ymlaen â datblygiad parhaus ein gwasanaeth llyfrgelloedd.

- Rydyn ni'n cydnabod bod pob cymuned yn wahanol, ac mae angen deall barn ar y cynnig am hybiau a llai o lyfrgelloedd.
- Mae angen ystyried sut y gall datblygiadau wedi'u cynnig o fewn y strategaeth hon effeithio ar unigolion a chymunedau.
- Beth allai'r weledigaeth hon ei olygu i unigolion â nodweddion gwarchodedig?
- Rydyn ni hefyd yn ystyried amgylchiadau cymdeithasol-economaidd ein cymunedau, gan ein bod ni'n gwybod bod rhai ardaloedd yn gyffredinol yn wynebu mwy o anfantais nag eraill.
- Byddwn ni'n ystyried yr effaith ar y Gymraeg a'r ymrwymiadau rydyn ni wedi'u gwneud yn rhai o'n dogfennau cynllunio allweddol, fel ein Cynllun Corfforaethol 2023-2028.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig sy'n cyd-fynd â'r Weledigaeth hon yn nodi'r cyfleoedd a goblygiadau posibl y strategaeth hon yn ein barn ni, ond mae angen eich barn chi i'n helpu ni i ddeall eich profiad fel defnyddiwr. Heyfd, mae'n cael ei ategu gan ddata a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r gwasanaeth a'r lleoliadau.